# Penrhyndeudraeth

**Pellter:** 1.6km / 1 filltir
**Anhawster:** hawdd
**Amser cerdded:** 40 munud

Caffis a thoileadau yng nghanol y dref ddim yn rhy bell o'r orsaf.

Rhywfaint o dir serth ac anwastad.


Mae'r llwybr byr hwn yn archwilio Gwarchodfa Natur Gwaith Powdwr. Ffatri arfau oedd hi gynt, mae bellach yn cael ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a gymerodd yr awenau pan ddatgomisiynwyd y safle.

1. Trowch i'r chwith wrth yr orsaf a pharhau ar hyd y ffordd nes i chi gyrraedd stad ddiwydiannol Cooke ar y chwith i chi. Trowch i mewn i'r stad a mynd yn syth heibio'r gatiau gwyn i warchodfa natur Gwaith Powdwr. Gallwch hefyd gael taflen yma gyda map o'r warchodfa a manylion ei hanes a'i bywyd gwyllt.

2. Dilynwch y prif lwybr tarmac i fyny'r allt, gan droi i'r dde wrth y panel dehongli, ac yna'n syth dros y bont goncrid. Bydd y llwybr yn eich arwain at sied storio fawr. Ewch yn syth heibio iddo ac fe ddewch at sied lai o faint. Dilynwch y llwybr serth i fyny'r allt, ac fe ddewch at bwll dŵr, ac yna trydydd adeilad gyda set o risiau wrth ei ymyl. Dilynwch y grisiau at y rhostir.

3. Ar ôl i chi gyrraedd pen y grisiau, parhewch ar hyd y llwybr. Mae taith ddewisol i'r chwith tuag at gwt y pendil mawr, neu gallwch ddilyn y llwybrau i gwrdd â thrac sy'n mynd yn ôl i lawr at y ffordd.

4. Trowch i'r dde ar ôl i chi gyrraedd y ffordd er mwyn mynd yn ôl i'r orsaf.




Dylunio a Darlunio ©Arry Cain 2023

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau.Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau.